

## GLASFRYN. M.2. (M.B.C.)

*Doh* A♭. *Modd Lah.* J. AMBROSE LLOYD.





A-men.

*"Tyred"*

PAHAM y sefi draw
Yn ddifraw, heb ystyried?
Paham y crwydri di mor bell?
Dy Dad sy'n cymell—Tyred!

Mae baich dy feiau'n fawr,
A'r Iesu'n awr am arbed:
Mae'r Gŵr fu dan y goron ddrain
O hyd yn llefain—Tyred!

Mae gobaith gwag y byd
Yn troi i gyd yn golled:
Clyw dirion lais yr Ysbryd Glân
Yn galw 'mhobman—Tyred!


Paham y sefi draw?
O b'le y daw ymwared?
Mae teulu'r Oen ar Seion fryn
I gyd yn erfyn—Tyred!


ELFED.



## Trefor C. Powell Words by Einon Evans

Doh: B♭ C. Powell





### GWEDDI

Tyred, Arglwydd, i'n calonnau,
A bydd yno'n Iesu byw,
Fel y dygwn wlithoedd gobaith
I eneidiau'n dyddiau gwyw.

Gad i ni fod yn gyfryngau
Yn dy law i arwain myrdd
Sydd ar goll ar lwybrau bydol
Eto'n ôl i'r Nefol ffyrdd.

Gwared ni rhag ffug dduwioldeb,
A defosiwn a dry'n wawd;
Na foed inni, drwy ein geiriau,
Guddio'r Gair a wnaed yn gnawd.

Cariad Iesu fo'n llewyrchu
Ynom ni mewn oes o fraw ;—
Pan fo'r byd yn dangos dyrnau
Dysg i ni roi iddo'n llaw.

Boed i ni tra ar y ddaear
Fyw bob dydd er clod i Dduw,
Fel bo miloedd, trwy'n bywydau,
Yn cael gweld yr Iesu Byw.